Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

## Trwyddedu gyrwyr ar gyfer pobl â chyflyrau meddygol

## Galwad am dystiolaeth – **Ffurflen ymateb**

OOJ/22/013/1W
7/23

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL

OGL

© Hawlfraint y Goron [insert year of publication]

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3** neu ysgrifennwch i'r Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain, TW9 4DU neu anfonwch e-bost i: **psi@nationalarchives.gov.uk**
Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

# Arolwg galwad am dystiolaeth

**Nod yr alwad am dystiolaeth hon yw ceisio profiad, barn ac ymchwil oddi wrth y rheini â thystiolaeth berthnasol i helpu'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) i adnabod meysydd lle gall newidiadau polisi neu ddeddfwriaethol wella canlyniadau i yrwyr a defnyddwyr ffyrdd eraill.**

Darparwch gymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl drwy ateb y cwestiynau canlynol.

Gallwch gyfeirio'n ôl at y ddogfen galwad am wybodaeth ar unrhyw adeg wrth ateb y cwestiynau yn yr arolwg hwn.

# Sut i ymateb

**Dechreuodd y cyfnod galwad am dystiolaeth ar 31 Gorffennaf a bydd yn rhedeg hyd 22 Hydref.**

Wrth ymateb i'r alwad am dystiolaeth hon, bydd o gymorth os byddwch yn rhoi rhywfaint o wybodaeth amdanoch eich hun. Dywedwch wrthym a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os yn ymateb fel unigolyn ar ran sefydliad mwy, eglurwch pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle'n gymwys, sut y cafodd safbwyntiau'r aelodau eu casglu.

Wrth ateb y cwestiynau, darparwch unrhyw enghreifftiau ymarferol, data perthnasol, tystiolaeth ymchwil neu brofiad sy'n cefnogi'ch safbwyntiau.

Peidiwch â theimlo rheidrwydd i ateb yr holl gwestiynau.

Gallwch ymateb i'r alwad hon am dystiolaeth gan ddefnyddio'r offeryn DVLA SNAP Survey Ltd yn: **https://online1.snapsurveys.com/s3dxzw**

Fel arall, gallwch ymateb drwy anfon e-bost atom yn: **CFE.meddriverlicensing@dvla.gov.uk**

Neu gallwch bostio'ch ymateb i:

**Polisi Trwyddedu Gyrwyr**
**Galwad am Dystiolaeth**
**C2 Dwyrain**
**DVLA**
**Abertawe**
**SA6 7JL**

Sicrhewch fod eich ymateb yn ein cyrraedd cyn y dyddiad cau. Gallwch gysylltu â **CFE.meddriverlicensing@dvla.gov.uk** os oes angen fformatau gwahanol arnoch (er enghraifft, copïau papur, CD sain).

# Rhyddid Gwybodaeth

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r alwad hon am dystiolaeth gael ei chyhoeddi neu'i datgelu yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Os ydych chi am i'r wybodaeth rydych yn ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, o dan y FOIA, mae Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n delio, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau hyder.

O ystyried hyn byddai o gymorth pe byddech yn gallu esbonio inni pam rydych yn ystyried y wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond nid ydym yn gallu rhoi sicrwydd y gall cyfrinachedd gael ei gynnal ym mhob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan ein system TG, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried i fod yn rhwymo'r Adran.

Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data 2018 (DPA) ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael eu datgelu i drydydd partïon.

# Diogelu Data

Nod yr alwad hon am dystiolaeth gan DVLA, asiantaeth weithredol o'r Adran dros Drafnidiaeth (DfT), yw casglu safbwyntiau i lunio ein barn wrth ystyried newidiadau posibl i'r fframwaith a phroses trwyddedu meddygol presennol.

Yn yr alwad hon am dystiolaeth, rydym yn gofyn am:

- eich enw ac e-bost, rhag ofn y bydd angen inni gysylltu â chi am eich ymatebion (nid oes rhaid ichi roi gwybodaeth bersonol inni, ond os byddwch yn ei darparu, byddwn yn ei defnyddio at ddiben gofyn cwestiynau dilynol os bydd angen inni wneud)

I sefydliadau, rydym yn gofyn am:

- ddisgrifiad byr o'ch sefydliad i ddeall y berthynas rhwng gwaith eich sefydliad a'r pwnc yn well

Mae'r alwad am dystiolaeth hon a phrosesu'r data personol mae'n ei golygu yn angenrheidiol ar gyfer ymarfer ein swyddogaethau fel adran o'r llywodraeth. Os bydd eich atebion yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n caniatáu ichi gael eich hadnabod, bydd DVLA, o dan gyfraith diogelu data, yn rheolwr ar gyfer y wybodaeth hon.

Os yn ymateb i'r alwad am dystiolaeth hon ar-lein, bydd eich data personol yn cael eu prosesu ar ran DVLA gan SNAP Surveys Ltd, sy'n rhedeg y meddalwedd casglu arolwg. Mae SNAP Surveys Ltd. yn cynnal casglu'r arolwg yn unig, ac ni fydd eich data personol yn cael eu rhannu ag unrhyw drydydd partïon eraill. Os hoffech ddeall sut mae SNAP Surveys Ltd yn defnyddio'ch data, efallai y byddwch am ddarllen eu **datganiad preifatrwydd.**

Mae'ch ymateb a'r prosesu o'ch data personol mae'n ei golygu yn angenrheidiol ar gyfer ymarfer ein swyddogaethau fel adran o'r llywodraeth. Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol yw perfformio tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd, neu mewn ymarfer awdurdod swyddogol a freinir yn y rheolwr.

Ni fyddwn yn defnyddio eich enw na manylion personol eraill a allai eich adnabod chi pan fyddwn yn adrodd canlyniadau'r alwad am dystiolaeth. Bydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn cael ei dinistrio o fewn 12 mis o'r dyddiad cau. Bydd unrhyw wybodaeth a roddir trwy'r holiadur ar-lein yn cael ei symud i'n systemau mewnol o fewn dau fis o ddyddiad cau cyfnod yr alwad am dystiolaeth.

Mae gan **bolisi preifatrwydd DVLA** ragor o wybodaeth am eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol, sut i gwyno a sut i gysylltu â'r Rheolwr Diogelu Data.

# Manylion personol a sefydliadol

1) Ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu fel sefydliad?

2) Manylion personol a sefydliadol**

Enw:

Enw'r Sefydliad (os yn gymwys):

Cyfeiriad e-bost:

**Noder fod eich manylion personol a sefydliadol yn cael eu defnyddio i ddilysu ymateb yn unig ac ni fydd DVLA yn defnyddio'r manylion hynny i gysylltu â chi am unrhyw ymateb a ddarperir.

3) Pa mor fawr yw'ch sefydliad?

- ☐ 10 o bobl neu lai
- ☐ Rhwng 11 a 50 o bobl
- ☐ Rhwng 51 a 100 o bobl
- ☐ Rhwng 101 a 150 o bobl
- ☐ Mwy na 150 o bobl

4) Beth yw eich proffesiwn a/neu pa fath o waith y mae eich sefydliad yn ymwneud ag ef?


Parhad dros y dudalen

# Cwestiynau galwad am dystiolaeth

## Adran 1 – Trwyddedu meddygol gyrwyr a'r gyfraith

a) Beth yw eich safbwyntiau ar y rhwymedigaethau cyfreithiol neu gyfrifoldebau a osodir ar:

i. yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth a DVLA

ii. gyrwyr a/neu ymgeiswyr

iii. gweithwyr gofal iechyd proffesiynol



Parhad dros y dudalen

b) Ydych chi'n meddwl y dylai unrhyw rannau penodol o'r gyfraith gael eu newid ac a allwch ddarparu tystiolaeth i gefnogi'ch safbwyntiau?

## Adran 3 – Beth mae gwledydd eraill yn ei wneud i asesu ffitrwydd meddygol i yrru

a) Os oes gennych brofiad o drwyddedu meddygol gyrwyr o wlad arall, dywedwch wrthym amdano.

b) Beth yw eich safbwyntiau ar ymagwedd Prydain Fawr at drwyddedu gyrwyr?



Parhad dros y dudalen

c) Ydych chi'n meddwl y dylai Prydain Fawr ystyried mabwysiadu ymagwedd wahanol? Esboniwch eich rhesymau a darparwch unrhyw dystiolaeth i gefnogi'ch safbwyntiau.

## Adran 4 – Sectorau eraill lle mae ffitrwydd meddygol yn cael ei asesu

a) Os oes gennych brofiad o orfod profi ffitrwydd meddygol fel peilot, morwr neu mewn sefyllfa arall, dywedwch wrthym amdano.



Parhad dros y dudalen

## Adran 5 – Cyflyrau meddygol lluosog a phoblogaeth sy’n heneiddio

a) Oes angen unrhyw newidiadau i fynd i’r afael â’r mynychder cynyddol o yrwyr â chyflyrau meddygol lluosog?

## Adran 6 – Proses a chostau trwyddedu meddygol

a) Ydych chi’n meddwl y dylai’r gost gysylltiedig ag ymchwiliadau meddygol gael ei thalu gan drethdalwyr a’r DVLA?

b) A fyddai’n briodol i’r cwsmer unigol dalu am ymchwiliadau meddygol mewn perthynas â’i ffitrwydd i yrru?



Parhad dros y dudalen

c) Oes gennych chi unrhyw wybodaeth am drefniadau amgen ar gyfer cyllido gofynion trwyddedu meddygol i yrwyr? Os felly, disgrifiwch.

d) Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth sy’n ymwneud â llwyddiant neu â phroblemau’r trefniadau hyn?

## Adran 7 – Meddwl i’r dyfodol

a) Ydych chi’n credu y bydd angen i’r safonau meddygol presennol newid i gymryd gwelliannau mewn technolegau yn y cerbyd i ystyriaeth? Rhowch y rheswm am eich ateb.



Parhad dros y dudalen

b) Oes unrhyw dystiolaeth yr hoffech ei darparu ar sut y gallai trwyddedu gyrwyr gael ei ddiogelu at y dyfodol i ddarparu ar gyfer technolegau datblygedig mewn cerbydau?

| |
|---|
| |

c) Ydych chi'n credu y byddai'r defnydd o wneud penderfyniadau awtomataidd yn fuddiol i waith achosion meddygol gyrwyr? Esboniwch eich rhesymeg.

| |
|---|
| |

d) Ydych chi'n meddwl y dylai unigolyn barhau i wneud y penderfyniad ar roi neu ddirymu trwydded yrru? Esboniwch eich rhesymeg.

| |
|---|
| |

